# PWYLLGOR SAFONAU

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 24 Tachwedd, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: R. Hendicott (Cadeirydd); L. Tinsley Is-Gadeirydd); R. Alexander, P. Hallett a G. Watkins (Aelodau Annibynnol), Cynghorwyr R.M. Birch a C.P. Franks.

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd J.E. Charles.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Hydref, 2022 fel cofnod cywir, gan nodi bod yr Aelodau wedi gwneud sylwadau yn y cyfarfod diwethaf eu bod yn disgwyl i geisiadau am ollyngiad dodd i law mewn modd amserol.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd C.P. Franks ddiddordeb yn eitem 4 ar yr agenda o ystyried cais y Cynghorydd Buckley ynghylch Ysgol Y Deri a dywedodd y byddai'n cyflwyno cais tebyg a gadawodd yr ystafell pan ystyriwyd y cais hwn.

EITEM AGENDA 4. CAIS AM GANIATÂD (SM/PGCD) -

PENDERFYNWYD – BOD y goddefebau fel y'u nodir yn yr atodlen isod yn cael eu caniatáu hyd at ddyddiad yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf:

| Aelod sy'n Gofyn am Oddefeb | Paragraff(au) Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau (Caniatáu Goddefebau) (Cymru) 2001 - y caniateir goddefebau oddi tanynt ac y gwnaed cais amdanynt oddi tanynt | Penderfyniad |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd I. Buckley | (ch) | Rhoddwyd caniatâd i siarad a phleidleisio ar unrhyw fater yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | ymwneud ag Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref Penarth er bod aelod o'r teulu'n gyflogedig gan yr Awdurdod Tân. |
| Y Cynghorydd I. Buckley | (ch), (dd) a (g) | Rhoddwyd caniatâd i siarad a phleidleisio ar bynciau'n gysylltiedig â Rhaglen Ail-lunio Cyngor Bro Morgannwg pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref Penarth fel y bo'n briodol. |
| Y Cynghorydd I. Buckley | (ch) | Rhoddwyd caniatâd i siarad a phleidleisio ar faterion yn ymwneud ag Ysgol y Deri er bod ei ferch yn gyflogedig yno. |

Rheswm dros y penderfyniad

Cydymffurfio â'r rheoliadau a'r rhwymedigaethau ar gyfer rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio.

EITEM AGENDA 5. OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU CYNLLUN STRATEGOL 2023-2026. (SM/PGCD) –

PENDERFYNWYD –

(1) BOD sylwadau'r Pwyllgor ar y Cynllun Strategol drafft fel isod, yn cael eu hanfon ymlaen gan y Swyddog Monitro i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus:

- cyfeiriad i'w wneud yn y Cynllun Strategol at brydlondeb delio â chwynion;

ac

- o ystyried y tebygolrwydd y gallai llwythi achosion gynyddu, cyfeiriad i'w wneud yn y Cynllun at ystyried goblygiadau ar gyfer adnoddau i Swyddfa'r Ombwdsmon ac Awdurdodau Lleol.

(2) BOD yr ymateb a amlinellir ym Mhenderfyniad (1) uchod yn cael ei gymeradwyo gan y Cadeirydd, cyn anfon a'r llythyr i'w gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau er gwybodaeth.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1) Rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a hysbysu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o sylwadau'r Pwyllgor.

(2) I ofyn am gymeradwyaeth y Cadeirydd cyn anfon y llythyr ac i hysbysu'r Pwyllgor yn unol â hynny.

EITEM AGENDA 6. LLYTHYR ODDI WRTH OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU YNGLŶN Â CHANLLAWIAU A PHROSES CWYNION Y COD YMDDYGIAD (SM/PGCD) –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad a'r llythyr a oedd ynghlwm fel Atodiad i'r adroddiad a bod yr un peth yn cael ei anfon ymlaen at holl Gynghorwyr a Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned Bro Morgannwg er gwybodaeth.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 7. SYLWADAU GAN AELODAU ANNIBYNNOL CYNGOR BRO MORGANNWG / GYFARFODYDD PWYLLGORAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED (SM/PGCD) –

PENDERFYNWYD –

(1) NODI'r adroddiad a'r adborth a dderbyniwyd yn y cyfarfod ynghylch ymweliadau arsylwi i gynhaliwyd gan Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau.

(2) RHANNU sylwadau'r Aelodau Annibynnol gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned perthnasol.

<u>Rheswm dros y penderfyniadau</u>

(1&2) Wedi ystyried yr arsylwadau a wnaed a rôl y Pwyllgor Safonau.

EITEM AGENDA 8. GOHEBIAETH GYDAG OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (SM/PGCD) –

PENDERFYNWYD – Nodi cynnwys yr adroddiad, gan ystyried y byddai diweddariad ar yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac y byddai unrhyw faterion sy'n codi dan Ran II yr adroddiad yn cael eu hystyried dan Ran II yr agenda.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

I hysbysu'r Aelodau o'r Pwyllgor.

MATER OEDD Y CADEIRYDD WEDI PENDERFYNU YN FRYS –

PENDERFYNWYD – Y dylid ystyried y mater canlynol yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys am y rhsewm a roddwyd o dan bennawd y cofnodion.

EITEM AGENDA 9. DIWEDDARIAD AR Y FFORWM CENEDLAETHOL (SM/PGCD) –

**Mater yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys er mwyn hysbysu'r Pwyllgor am y cynnydd o ran sefydlu'r Fforwm Safonau Cenedlaethol gyda'r cyfarfod cyntaf i'w gynnal ar 8 Rhagfyr, 2022.**

PENDERFYNWYD – Nodi'r adroddiad diweddaru

Rheswm dros y penderfyniad

Hysbysu Aelodau'r Pwyllgor.

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

EITEM AGENDA 10. GOHEBIAETH GYDAG OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) -

PENDERFYNWYD – NODI'r wybodaeth gyfrinachol a roddwyd gan y Dirprwy Swyddog Monitro yn y cyfarfod.

Rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried gohebiaeth a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon, gan nodi ei bod yn gyfrinachol ar hyn o bryd.